**FERSIWN TERFYNOL**

**CYFRINACHOL**

# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2023**

**TGAU**
**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4**
**3020U40-1**

Cofiwch edrych ar y Porth Rheoli Penodedigion i weld dyddiad a lleoliad y gynhadledd arholwyr: http://appointees.wjec.co.uk

Gofynnwn i chi hefyd wneud yn siŵr eich bod yn diweddaru eich tudalen Gwrthdaro Buddiannau am y flwyddyn academaidd 2022/2023 **cyn** i chi ddechrau marcio.

© WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4

## CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2023

**Adran A**

**[11 + ✓ = 2] = 13**

**A1.** Rydych chi a'ch ffrindiau yn uwchlwytho proffiliau personol ar wefan Mentor Ifanc eich ysgol. Darllenwch y proffiliau isod a chwblhewch y tabl.
*You and your friends are uploading personal profiles onto your school's Young Mentor website. Read the profiles below and complete the table.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Naqib** | **<u>Enw</u>**<br>Naqib Ahmed<br><br>**<u>Oed</u>**<br>Un deg pedwar<br><br>**<u>Hoffi</u>**<br>Chwarae gemau ar ei X Box gyda'i chwaer<br><br>**<u>Ddim yn hoffi</u>**<br>Gwneud gwaith cartref | **Anna** | **<u>Enw</u>**<br>Anna Francis<br><br>**<u>Oed</u>**<br>Un deg chwech<br><br>**<u>Hoffi</u>**<br>Gwylio fideos doniol ar YouTube<br><br>**<u>Ddim yn hoffi</u>**<br>Treulio amser gyda'i brawd bach | **Tom** | **<u>Enw</u>**<br>Tom Hadley<br><br>**<u>Oed</u>**<br>Un deg pump<br><br>**<u>Hoffi</u>**<br>Chwaraeon tîm<br><br>**<u>Ddim yn hoffi</u>**<br>Mynd â'r ci am dro yn y glaw |

(a) Ticiwch (✓) y bocs cywir.

| | **Naqib** | **Anna** | **Tom** | |
|---|---|---|---|---|
| Hoffi cadw'n heini? | | | ✓ | [1] |
| Ddim yn hoffi tywydd gwlyb | | | ✓ | [1] |
| Hoffi treulio amser gyda'r teulu? | ✓ | | | [1] |
| Pwy ydy'r hynaf? | | ✓ | | [1] |

© WJEC CBAC Cyf.

Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn y proffiliau wrth ateb y cwestiynau isod.
*You must use the information in the profiles to answer the questions below.*

(b) Gofynnwch gwestiwn i un o'r bobl ifanc am eu hobi.
*Ask one of the young people about their hobby.* **[1]**

Does dim rhaid cael enw yn yr ateb. Gwobrwyir marc am gwestiwn pen agored fel 'Beth wyt ti'n feddwl am chwaraeon tîm?' 'Beth wyt ti'n feddwl am chwarae ar gonsol gemau?' 'Beth ydy dy farn ar fynd ar y we?'

1 marc am gwestiwn cyfathrebol yn ymwneud â'r hyn mae'r cymeriadau yn ei ddweud am beth maen nhw'n hoffi. e.e
Naqib – Ble wyt ti'n chwarae ar dy XBox?
Anna – Wyt ti'n gwylio fideos ar Tiktok?
Tom - Wyt ti'n chwarae rygbi?

(c) Gyda phwy hoffech chi fod yn ffrindiau? Pam? **[1 + ✓ = 1] = 2]**
Mae rhaid cael enw un o'r bobl o'r testun yn yr ateb.

1 marc cynnwys am ddefnyddio gwybodaeth o'r darnau yn gywir e.e
Naqib – achos mae o'n 14 oed, hoffi chwarae Xbox, ddim yn hoffi gwaith cartref
Anna - achos mae hi'n 15 oed, hoffi gwylio Youtube/fideos doniol, ddim yn hoffi bod efo'i brawd
Tom – achos mae o'n 16 oed, hoffi chwaraeon, ddim yn hoffi mynd â'r ci am dro, ddim yn hoffi tywydd drwg/gwael

1 marc mynegiant am roi'r wybodaeth mewn brawddeg gyfathrebol e.e
Hoffwn i fod yn ffrindiau efo Naqib/Anna/Tom achos…
Rydw i'n hoffi Naqib/Anna/Tom achos….
Tom achos mae o'n ____

Mae Anna yn Fentor Ifanc yn yr ysgol. Darllenwch ei phroffil ac atebwch y cwestiynau.
*Anna is a Young Mentor in the school. Read her profile and answer the questions.*

(ch) Ticiwch (✓) y bocs cywir

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae disgyblion yn siarad am eu problemau gyda Anna bob dydd. | | **Anghywir** | **[1]** |
| Mae Anna yn helpu pobl ifanc yn ystod amser egwyl. | **Cywir** | | **[1]** |
| Mae Anna yn meddwl bod Instagram a Snapchat yn ofnadwy. | **Cywir** | **Anghywir** | **[1]** |
| Dydy Anna ddim yn hoffi gweithio fel mentor. | | **Anghywir** | **[1]** |

© WJEC CBAC Cyf.

Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn y proffil wrth ateb y cwestiwn isod. Atebwch mewn brawddeg lawn.
*You must use the information in the profile to answer the question below. Answer in a full sentence.*

(d) Beth gallai Anna wneud fel gwaith yn y dyfodol? **[1 + ✓ = 1] = 2]**

Awgrymwch swydd addas i Anna.
*Suggest a suitable job for Anna.*

1 marc cynnwys am awgrymu swydd addas yn cyd-fynd gyda'r ffaith bod Anna eisiau gweithio gyda phobl yn y dyfodol – athrawes, nyrs, cwnselydd, heddwas, meddyg/doctor, mentor, gweithio efo/gyda phobl, gweithio efo/gyda phlant ayb Rhaid cael swydd yn Gymraeg.

1 marc mynegiant am roi'r wybodaeth mewn brawddeg gyfathrebol e.e
Gallai Anna weithio fel athrawes.
Basai Anna yn gallu gweithio fel heddwas.
Rydw i'n meddwl basai Anna yn nyrs dda.
Athrawes achos mae hi'n hoffi pobl.

© WJEC CBAC Cyf.

**A2.**

**[5 + ✓ = 5] = [10]**

Ysgrifennwch yn Gymraeg am sut rydych chi a’ch ffrindiau yn treulio amser gyda’ch gilydd.

| | | |
|---|---|---|
| (i) | Disgrifiwch eich ffrind. | [1] |
| (ii) | Beth ydych chi’n hoffi am eich ffrind? Pam? | [2] |
| (iii) | Beth wnaethoch chi penwythnos diwethaf gyda eich ffrind? | [2] |

**Cynnwys [5] (atebion enghreifftiol)**

| | | |
|---|---|---|
| ✓ | Disgrifio | - Enw fy ffrind ydy Will, Mae ganddo fo/ganddi hi wallt glas. = 1 marc |
| ✓ | Hoffi | 1 marc am ateb heb reswm:<br>- Mae Wil yn hoffi chwarae hoci (fel fi)<br>- Dydy Wil ddim yn berson cas |
| ✓ | Pam? | 1 marc ychwanegol am gynnig rheswm:<br>- achos dw i'n hoffi hoci hefyd<br>- achos mae’n rhoi i elusen |
| ✓ | Penwythnos | 1 marc yr un am drafod beth wnaethon nhw ar y penwythnos gyda’u ffrind [uchafswm o 2] |

**Mynegiant [5]**

| | |
|---|---|
| **5 marc** | Ateb diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol (gan gynnwys 2 amser y ferf), mynegi barn effeithiol (a rhesymu hyderus). |
| **4 marc** | Ateb da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol (a rhesymu hyderus). |
| **3 marc** | Ateb syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, mynegi barn (a rhesymu da). |
| **2 farc** | Ymgais i greu ateb yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol ac ymdrech i fynegi barn. |
| **1 marc** | Brawddegau sylfaenol, pytiog heb strwythur amlwg. |

© WJEC CBAC Cyf.

**A3**

**[3 + ✓ = 6] = [9]**

Mae gwylio ffilmiau yn fusnes mawr heddiw ac mae pobl ifanc yn gwario llawer o arian yn mynd i'r sinema neu ar danysgrifiad Netflix. Mae'r bobl ifanc isod yn trafod sut maen nhw'n hoffi gwylio ffilmiau.
*Watching films is big business today and young people spend a lot of money on going to the cinema or on a Netflix subscription. The young people below discuss how they like to watch films.*

(a) Llenwch y bylchau gyda'r wybodaeth gywir:

(i) Mae **CARLOS** yn hoffi gwylio ffilmiau ar ffôn symudol. [1]
(ii) Mae'n well gan **HENNA** wylio clipiau ar-lein na gwylio ffilmiau. [1]
(iii) Mae **EMMA** yn hoffi mynd allan o'r tŷ i wylio ffilmiau [1]

| | |
|---|---|
| Emma | mwynhau mynd i'r sinema, hoffi gwylio ffilm ar sgrin fawr, hoffi bwyta popcorn |
| Sion | gwylio ffilmiau ar deledu/Netflix, ffôn symudol sbwriel ganddo |
| Carlos | hoffi gwylio Netflix ar ffôn symudol |
| Henna | ddim yn hoffi gwylio ffilmiau, hoffi gwylio clipiau YouTube |
| Chioma | dim ffôn symudol ganddi, hoffi gwylio DVDs yn y tŷ |

(b) Ydych chi'n mwynhau gwylio ffilmiau? [✓ = 1]

Ydw/ Nacydw
Heb os, Yn bendant, Yn sicr/ Wrth gwrs
Ddim o gwbl

(c) I bwy ydych chi'n debyg? [✓ = 1]

1 marc am roi enw un o'r bobl ifanc yn y darn
Rhaid nodi'r enw mewn brawddeg i wobrwyo marc.

© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Sut? [✓ **= 4]**

Rhaid defnyddio gwybodaeth o'r darn [heb ei gopïo yn slafaidd] er mwyn egluro beth sy'n debyg/wahanol.
**Rhaid i'r ateb gyfeirio at y wybodaeth yn y testun e.e 'Mae'n well gen i gadw'n heini na gwylio ffilmiau/clipiau (ateb ar gyfer Emma/Sion/Carlos/Henna/Chioma); Mae'n well gyda fi wrando ar gerddoriaeth ar Youtube (ateb ar gyfer Henna); Mae'n well gen i fod tu allan yn gwneud pethau bywiog (ateb ar gyfer Emma/Sion/Carlos/Henna/Chioma).'

Atebion enghreifftiol – 2 farc
Fel Emma rydw i'n hoffi mynd i'r sinema.
Yn wahanol i Henna mae'n gas gen i wylio Youtube

Atebion enghreifftiol – 2 farc
Fel Emma rydw i'n hoffi mynd i'r sinema i wylio ffilmiau newydd.
Yn wahanol i Henna mae'n gas gen i wylio Youtube achos mae'n ddiflas.

**A4** **[8 + ✓ = 2] = [10]**

Darllenwch y darn isod yna atebwch y cwestiynau
*Read the passage below then answer the questions.*

(a) Tanlinellwch (underline) yr atebion cywir.

(i) Yn ôl yr erthygl, ble mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwylio rhaglenni, clipiau fideo a ffilmiau?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | **Ystafell wely** | efo'r teulu | **[1]** |

(ii) Faint mae S4C yn gostio bob mis?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wyth bunt | pum punt | **am ddim** | **[1]** |

(iii) Ym mha flwyddyn cafodd Hansh ei lansio?

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2016 | **2017** | 2007 | **[1]** |

(iv) Faint fydd oed S4C yn 2022?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **40** | 44 | 50 | **[1]** |

(b) Ysgrifennwch 3 ffaith (fact) o'r darn am lansiad S4C:

1 marc yr un – uchafswm o 3 marc. Does dim rhaid cynnwys y wybodaeth mewn brawddegau llawn.

(Lansio) yn 1982(Lansio) 1 Tachwedd **1982** (rhaid cael y flwyddyn)
Rhaglen (gyntaf) - SuperTed
Cyflwynydd (cyntaf) – Robin Jones
Robin Jones wedi helpu sefydlu'r sianel
(Doedd) pawb ddim eisiau'r sianel
(Roedd) rhaid i bobl brotestio.
Gwynfor Evans wedi stopio bwyta mewn protest
Lansio gwasanaeth digidol 2017/Lansio Hansh yn 2017

© WJEC CBAC Cyf.

(c) (Dewisiwch **un** o’r cwestiynau. Ysgrifennwch y cwestiwn ac yna atebwch y cwestiwn mewn brawddegau llawn.
Choose **one** of the questions. Write the question down then answer the question in full sentences.

Cwestiwn:
Un o’r cwestiynau o’r dewis yn y swigod. Dim marc am nodi’r cwestiwn.
**Ydy S4C yn boblogaidd efo pobl ifanc sy’n dysgu Cymraeg yn yr ysgol?**
**Ydych chi’n gwylio rhaglenni ar S4C weithiau?**
**Ydy S4C yn gallu denu gwylwyr yn 2021?**
**Ydych chi wedi gwylio Hansh ar Facebook, Instagram neu S4Clic?**

Ateb: [1 + ✓ = 2] = [3]

3 marc ar gael i gyd – 1 marc dealltwriaeth, 2 farc iaith (rhaid cael o leiaf un gystrawen gywir yn eu hateb i gael y marciau - achos mae'n... yn ddigonol)

Marc Dealltwriaeth > gwobrwyo'r marc os ydy'r ymgeisydd yn dangos ei fod o'n deall y cwestiwn yn ei ateb.

1 Marc Iaith > Ateb syml – Dwi'n gwylio S4C ar y penwythnos.

> Ateb estynedig ond yn camddefnyddio'r "ydy" – Oes, bydda i'n gwylio R a R i wella fy Nghymraeg ac mae rhaglenni Cymraeg yn well na rhaglenni Saesneg yn aml.

2 Farc Iaith > Ateb estynedig > Bydda i'n gwylio R a R i wella fy Nghymraeg ac mae rhaglenni Cymraeg yn well na rhaglenni Saesneg yn aml.

Ateb estynedig + defnydd cywir o'r Ydys – Ydw, bydda i'n gwylio R a R i wella fy Nghymraeg ac mae rhaglenni Cymraeg yn well na rhaglenni Saesneg yn aml.

0 marc o 3 > Ydy ar ei ben ei hun

**Derbyn ‘Ydyn’ a ‘Nac ydyn’ yn yr atebion hyn: ‘Ydych chi’n gwylio rhaglenni ar S4C weithiau?’ ‘Ydych chi’n gwylio Hansh ar Facebook, Instagram neu S4Clic?’**

© WJEC CBAC Cyf.

**A5.** Ysgrifennu [8 + ✓ = 7] **= [15]**

Yn ôl arolwg diweddar mae pobl ifanc yn cyfrannu £1.7 biliwn o bunnoedd y flwyddyn i economi Prydain. Ysgrifennwch nodyn yn sôn am eich harferion gwario chi.
Rhaid i chi ysgrifennu am y canlynol:

- Sut ydych chi'n gwario eich arian? [1]
- Beth brynoch chi ddiwethaf? Pryd? [2]
- Sut fyddwch chi'n ennill arian? [2]
- Ddylai pobl ifanc roi arian at elusen? Rhowch resymau. [3]

**Cynnwys [8]**

✓ **Marc am nodi sut maen nhw'n gwario eu harian [uchafswm o 1 marc]**
**e.e. prynu dillad/ticedi sinema/losin, talu aelodaeth clwb/gwylio Netflix, cytundeb ffôn ayb**
**Ddim yn derbyn Netflix, McDonald's ayb heb ferf neu air Cymraeg o'i flaen:**
**e.e. gwylio Netflix, bwyd McDonalds**

✓ **Marc am nodi beth brynon nhw ddiwethaf [uchafswm o 2 farc]**
**e.e. Ar y penwythnos, Dydd Llun prynais i…., Dydd Gwener siopiais i…..**
**prynais i ddillad, cerddoriaeth, bwyd, ticedi/tocynnau**

✓ **2 farc am nodi sut maen nhw'n ennill arian [uchafswm o 2 farc]**
**e.e. gwaith rhan-amser, arian poced, arian gan deulu, gwerthu pethau arlein**

✓ **3 marc am fynegi barn ar roi arian i elusen (3 brawddeg) [uchafswm o 3 marc]**
**e.e. cytuno/anghytuno – dim digon o arian i'w rannu, dillad yn ddrud, siopa yn helpu efo straen, cynilo i fynd i'r brifysgol yn bwysig.**

**Mynegiant [7]**

| | |
|---|---|
| **6-7 marc** | Defnyddio o leiaf 5 patrwm brawddegol.<br>Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir (o leiaf 3 amser y ferf).<br>Sillafu ac atalnodi cywir. |
| **4-5 marc** | Defnyddio o leiaf 4 patrwm brawddegol.<br>Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan (o leiaf 2 amser y ferf).<br>Sillafu ac atalnodi da ar y cyfan. |
| **3 marc** | Defnyddio o leiaf 3 phatrwm brawddegol.<br>Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir (o leiaf 2 amser y ferf).<br>Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **2 farc** | Defnyddio o leiaf 2 batrwm brawddegol.<br>Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir<br>Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **1 marc** | Defnyddio o leiaf 1 patrwm<br>Defnydd ansicr o'r ffurfiau berfol<br>Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi. |

**B6** **[18]**

Darllenwch beth mae'r tri pherson enwog o Gymru yn ei ddweud ac atebwch y cwestiynau.

(i) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| **1a**<br>**Beth ydy barn Gareth Bale ar steil a ffasiwn?** | **Ateb 1a**<br>**PWYSIG [1]**<br>**Hoffi – yn cael ei dderbyn hefyd** | **1b**<br>**Pam?** | **Ateb 1b**<br>**1 marc am unrhyw un EDRYCH YN DDA/ TEIMLO'N DDA [uchafswm o 1]**<br><br>treulio amser yn dewis dillad/ steilio ei wallt | **1c**<br>**Cytuno efo Gareth Bale -**<br>**<u>Pam? Gwobrwyir ateb sy'n cynnwys rheswm yn unig.</u>** | **Ateb 1c**<br>**1 marc am gefnogi barn gyda rheswm:**<br>**Cytuno – achos mae edrych yn dda yn bwysig i fod yn hapus, achos mae dillad ffasiynol yn edrych yn dda**<br>**Anghytuno – achos mae ffasiwn yn ddibwynt, achos mae gwaith ysgol yn bwysicach.** |
|---|---|---|---|---|---|

(ii) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| **2a**<br>**Beth ydy barn Kizzy Crawford am siarad ieithoedd gwahanol?** | **Ateb 2a**<br>**Bendigedig [1]**<br><br>**Derbyn ansoddeiriau positif eraill hefyd e.e gwych, grêt, hyfryd/ pwysig /cytuno efo/gyda siarad ieithoedd gwahanol/cynnig cyfleoedd newydd/agor drysau.** | **2b**<br>**Sut mae'r Gymraeg wedi helpu Kizzy?** | **Ateb 2b**<br>**Agor drysau [1]**<br>**Cynnig cyfleoedd newydd [1]**<br>**Hefyd rydyn ni'n derbyn: (Gallu) canu mewn mwy nag un iaith** |
|---|---|---|---|

© WJEC CBAC Cyf.

(iii) Atebwch y cwestiynau yn y grid.

| | |
|---|---|
| **3a**<br>**Beth ydy barn Alex Jones ar fod yn eilun Cymreig?** | **Hapus [1]**<br>**Gallwn dderbyn: Mae hi'n hoffi bod yn eilun** |
| **3b**<br>**Pam?** | **Merched yng Nghymru yn edrych arna i fel Cymraes sydd wedi llwyddo [1]**<br>**Dim llawer o ferched o Gymru ar y teledu** |
| **3c**<br>**Ydych chi'n meddwl bod Alex yn eilun? Pam?** | **1 marc am gefnogi barn gyda rheswm:**<br>**Cytuno – achos mae Alex yn wych, mae Alex yn ddylanwad da**<br>**Anghytuno – achos mae Alex yn dwp, Dydy Alex ddim yn helpu pobl** |

(iv) Ticiwch (✓) y bocs cywir.

| **Pwy sy'n….?/ *Who…?*** | **Gareth Bale** | **Kizzy Crawford** | **Alex Jones** |
|---|---|---|---|
| **Cael dillad gan gwmnïau** | ✓ | | |
| **Gweithio ym myd cerddoriaeth** | | ✓ | |
| **Cael help stiwdio i edrych yn dda** | | | ✓ |

(v) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) un ateb. **[2]**

- Mae Gareth Bale yn siarad tair iaith yn rhugl.
- **Mae Gareth yn meddwl bod siarad tipyn bach o Gymraeg yn bwysig.**
- Dydy Gareth ddim yn gallu siarad Sbaeneg o gwbl.

(vi) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) un ateb. **[2]**

- **Mae Kizzy Crawford yn hapus i fod yn eilun.**
- Dydy Kizzy ddim yn hoffi bod pobl ifanc yn ei hedmygu hi.
- Dydy Kizzy ddim eisiau bod yn enwog.

(vii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) un ateb. **[2]**

- Mae'r tri seren enwog yn meddwl bod gwisgo dillad drud yn bwysig.
- Does gan y tri seren enwog ddim diddordeb mewn sut maen nhw'n edrych.
- **Mae'r tri seren enwog yn meddwl bod edrych yn dda yn rhywbeth positif.**

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran C** **[12 + ✓ = 13] = [25]**

**C7.** Ysgrifennwch yn Gymraeg ar un o'r canlynol (tua 150 o eiriau)
*Write in Welsh on one of the following (about 150 words)*

Naill ai
*Either*

(a) Ysgrifennwch blog yn trafod y gosodiad "Mae gormod o arian yn cael ei wario ar Gaerdydd a dim digon yn fy ardal i."
*Write a blog discussing the statement "Too much money is being spent on Cardiff and not enough on my area."*

| Rhaid i chi gynnwys: | You must include: |
|---|---|
| • Beth sy yng Nghaerdydd(hyd at 2 farc) | * *What's in Cardiff* |
| • Cyfleusterau yn eich ardal (hyd at 2 farc) | * *Facilities in your area* |
| • Problemau yn eich ardal (hyd at 2 farc) | * *Problems in your area* |
| • Beth hoffech chi wella yn eich ardal (hyd at 2 farc) | * *What you could improve in your area* |
| • Cymharu eich ardal â'ch hoff ddinas (hyd at 2 farc) | * *Compare your area to your favourite city* |

- Hyd at 2 farc os dangosir: 'Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol. '

Neu
*Or*

(b) Ysgrifennwch stori yn sôn am ddigwyddiad arbennig yn eich bywyd.
*Write a story about a special event in your life.*

| Rhaid i chi gynnwys: | You must include: |
|---|---|
| • Beth oedd y digwyddiad arbennig? (hyd at 3 marc) | * *What was the special event?* |
| • Pwy oedd gyda chi yn ystod y digwyddiad? (1 marc) | * Who was with you during the *event?* |
| • Pryd yn y flwyddyn oedd y digwyddiad? (1 marc) | * *When in the year did the event take place?* |
| • Sut oeddech chi'n teimlo cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad? (hyd at 3 marc) | * *How did you feel before, during and after the event?* |
| • Beth ddysgoch chi am eich hunan ar ôl y digwyddiad? (hyd at 2 farc) | * *What did you learn about yourself after the event?* |

- Hyd at 2 farc os dangosir: 'Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol.'

**Cynnwys – 12 marc**
**Mynegiant – 13 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys [12]**

| | |
|---|---|
| **10-12 marc** | • Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus.<br>• Amrywiaeth eang o ran syniadau a barn.<br>• Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn.<br>• Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol. |
| **7-9 marc** | • Cynllunio amlwg a dilyniant priodol.<br>• Diddorol o ran syniadau a barn.<br>• Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn.<br>• Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol. |
| **4-6 marc** | • Ôl cynllunio a'r gwaith yn datblygu'n weddol naturiol.<br>• Digonol o ran syniadau a barn.<br>• Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan.<br>• Gwaith diddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb. |
| **1-3 marc** | • Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu'n synhwyrol.<br>• Arwynebol iawn o ran syniadau a barn.<br>• Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml.<br>• Gwaith gweddol ddiddorol. |

**Mynegiant [13]**

| | |
|---|---|
| **10-13 marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Sillafu ac atalnodi cywir. |
| **7-9 marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb.<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **4-6 marc** | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir.<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **1-3 marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb.<br>• Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi. |



© WJEC CBAC Cyf.